Gweinyddiaeth Cyfiawnder

Ymgynghoriad ar y Cynllun Iaith Gymraeg

Bydd yr ymgynghoriad hwn yn dechrau ar y 1af o Fawrth 2022
Daw'r ymgynghoriad hwn i ben ar yr 8fed o Ebrill 2022



Ymgynghoriad a gynhyrchwyd gan GLlTEM. Mae hefyd ar gael yn https://consult.justice.gov.uk/

Ynglŷn â'r ymgynghoriad hwn

At:	Unrhyw randdeiliad neu sefydliad sydd â diddordeb yn nefnydd yr iaith Gymraeg yn y llysoedd a'r tribiwnlysoedd.
Cyfnod:	1/3/22 i 8/4/22
Ymholiadau (gan gynnwys ceisiadau i gael y papur mewn fformat gwahanol) at:	Eurgain Jarvis Swyddog Polisi Iaith Gymraeg Uned yr Iaith Gymraeg Canolfan Gyfiawnder Troseddol Caernarfon Ffordd Llanberis Caernarfon Gwynedd LL55 2DF Ffôn: 01286 669704 E-bost: Eurgain.Jarvis@justice.gov.uk
Sut i ymateb:	Anfonwch eich ymateb erbyn yr 8fed o Ebrill 2022 at: Hywel Hughes Pennaeth Gwasanaethau Cymraeg Uned yr Iaith Gymraeg Canolfan Gyfiawnder Troseddol Caernarfon Ffordd Llanberis Caernarfon Gwynedd LL55 2DF Ffôn: 07798852898 E-bost: Hywel.Hughes@justice.gov.uk
Ffyrdd ychwanegol i chi gyflwyno eich barn:	
Y papur ymateb:	Bydd ymateb i'r ymarfer ymgynghori hwn yn cael ei gyhoeddi erbyn mis Mai ar Gov.Uk

Cynnwys

Rhagair	3
Rhagarweiniad	4
Y cynigion	6
Holiadur	8
Amdanoch chi	9
Manylion cyswllt/Sut i ymateb	10
Egwyddorion ymgynghori	12

Rhagair

Rhagair i'r Ymgynghoriad ar y Cynllun Iaith Gymraeg

Roedd yn bleser gennyf ddarllen yn Adroddiad Sicrwydd diweddar Comisiynydd y Gymraeg bod GLlTEM wedi bod ar flaen y gad yn hanesyddol o ran materion Cymraeg. Gobeithiaf fod y cynllun drafft hwn yn cynnal hynny ac yn cryfhau ein darpariaeth ymhellach. Wrth i Gymru parhau i newid, mae gofyn inni geisio gwella, ac un ffordd i wneud hynny yw cryfhau y ffordd yr ymdrinnir â'r iaith Gymraeg wrth lunio ein polisïau.

Ni ddylai cael mynediad at ein gwasanaeth yn y Gymraeg fod yn fympwyol ac fel mwyafrif y sefydliadau sy'n gweithio yn ôl Cynllun neu Safonau, mae lle inni wella. Mae'r Cynllun diwygiedig yn anelu at fynd i'r afael â dau faes rydym yn teimlo y mae angen eu gwella. Yn gyntaf, marchnata ein gwasanaethau Cymraeg yn well. Yn ail, sicrhau bod gennym ddigon o siaradwyr Cymraeg yn ein rolau allweddol sy'n ymdrin gyda chwsmeriaid i fodloni'r galw cynyddol wrth i nifer y siaradwyr Cymraeg gynyddu. Rydym wedi gwella llawer dros y blynyddoedd a gobeithiaf y byddwch yn cytuno bod y gwelliannau a amlygir yn y Cynllun diwygiedig hwn yn gamau pwysig, esblygiadol i wella ein gwasanaethau.

Fel rhanddeiliad pwysig, mae gennym ddiddordeb mawr mewn clywed beth sydd gennych i'w ddweud am y Cynllun diwygiedig a'r cwestiynau a ofynnir yn yr ymgynghoriad hwn. Bydd eich sylwadau yn ein helpu i wella'r gwasanaethau yr ydym yn eu darparu i siaradwyr Cymraeg a'r ffordd yr ydym yn eu cyflwyno.

Kevin Sadler, Prif Weithredwr Dros Dro

Rhagarweiniad

Mae GLlTEM yn un o asiantaethau gweithredol y Weinyddiaeth Gyfiawnder, ac mae'n gyfrifol am weinyddu'r llysoedd a'r tribiwnlysoedd yng Nghymru a Lloegr a thribiwnlysoedd sydd heb eu datganoli yn Yr Alban a Gogledd Iwerddon.

O ran gweinyddu cyfiawnder yng Nghymru, mae wedi mabwysiadu'r egwyddor y byddai'n trin yr iaith Gymraeg a'r Saesneg yn gyfartal. Mae'r ymgynghoriad hwn yn ymwneud â thrydydd fersiwn y Cynllun Iaith Gymraeg. Cyhoeddwyd y cyntaf yn 2013 yn dilyn creu GLlTEM yn 2010 (roedd gan y Gwasanaeth Llysoedd a'r Gwasanaeth Tribiwnlysoedd Gynlluniau Iaith Cymraeg eu hunain cyn hynny).

Mae Cynllun Iaith Gymraeg GLlTEM yn cwmpasu gwaith ei bencadlys corfforaethol yn Llundain, Canolfannau Gwasanaethau'r Llysoedd a'r Tribiwnlysoedd a'r Canolfannau Busnes Cenedlaethol. Wrth ddarparu ei wasanaethau Cymraeg yng Nghymru, mae GLlTEM yn gweithio'n agos gyda'r Heddlu, Gwasanaeth Erlyn y Goron, Gwasanaeth Carchardai a Phrawf EM, y Gwasanaeth Cyfiawnder Ieuenctid, CAFCASS Cymru, y proffesiynau cyfreithiol, y farnwriaeth llawn amser a'r farnwriaeth leyg.

Ar ddiwedd bob blwyddyn, mae GLlTEM yn adrodd ar ei berfformiad dan y Cynllun i Gomisiynydd y Gymraeg gan ystyried sylwadau'r Comisiynydd i wella ein gwasanaeth bob blwyddyn.

Bydd newid mawr i'r ffordd y mae'r llysoedd a'r tribiwnlysoedd yn gweithredu yn ystod y blynyddoedd nesaf, ac mae angen i'r cynllun diwygiedig adlewyrchu hyn a darparu datganiad clir i siaradwyr Cymraeg ynghylch sut y byddwn yn trin yr iaith Gymraeg yn gyfartal o fewn y ffordd rydym yn darparu ein gwasanaethau.

Oherwydd bod GLlTEM eisoes yn gweinyddu Cynllun Iaith Gymraeg ac nad yw'r Cynllun diwygiedig yn newid yr egwyddor o gydraddoldeb ieithyddol, penderfynwyd nad oedd Asesiad Effaith yn angenrheidiol.

Mae'r ymgynghoriad hwn yn cael ei anfon ymlaen at yr unigolion a'r sefydliadau a ganlyn:-

- Uwch Farnwyr Llywyddol Cymru
- Barnwr Cyswllt yr Adran Deulu yng Nghymru
- Barnwyr Cyswllt yr Iaith Gymraeg
- Barnwr Sifil Dynodedig Cymru
- Barnwr Teulu Dynodedig Cymru
- Barnwyr Preswyl ar gyfer Llys y Goron
- Barnwyr Rhanbarthol y Tribiwnlys
- Pwyllgor Sefydlog yr Arglwydd Ganghellor ar yr Iaith Gymraeg

- Cymdeithas yr Ynadon
- Fforwm Cadeiryddion Meinciau Cymru
- Staff GLlTEM
- Grŵp Cydlynwyr Iaith Gymraeg y Weinyddiaeth Gyfiawnder
- Rhanddeiliad Cyfiawnder h.y. Yr Heddlu, Comisiynwyr yr Heddlu a Throseddu, Gwasanaeth Erlyn y Goron, Gwasanaeth Carchardai a Phrawf EM, CAFCASS Cymru
- Awdurdodau Lleol yng Nghymru
- Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru
- Llywodraeth Cymru
- Cymdeithas y Gyfraith - Cymru
- Cyngor y Bar – Cymru
- Uned Iaith Gymraeg Llywodraeth Cymru
- Comisiynydd y Gymraeg
- Cymdeithas Cyfieithwyr Cymru
- Cyfieithwyr ar y Pryd Llysoedd Cymru
- Canolfannau Gwasanaethau'r Llysoedd a'r Tribiwnlysoedd GLlTEM

Y cynigion

Gellir gweld y newidiadau o fewn y Cynllun diwygiedig mewn ‘testun pinc’ o fewn y ddogfen.

Fodd bynnag, gellir disgrifio’r prif newidiadau fel a ganlyn:

1. Yn Adran 2 - Ein Ffocws ar gyfer y Dyfodol - rydym yn anelu at ymrwymo i ddull mwy rhagweithiol wrth farchnata ein gwasanaethau Cymraeg. Rydym hefyd yn datgan, o fewn cyfnod y Cynllun diwygiedig hwn, byddwn yn anelu at uwchraddio’r offer cyfieithu yn Llys y Goron Abertawe i rywbeth tebyg i’r offer sydd gennym yng Nghanolfan Gyfiawnder Caernarfon.

2. Dan Adran 4 - Cynllunio Gwasanaethau a Chyflawni - rydym yn anelu at gyflwyno 3 safon sy’n gysylltiedig â phenderfyniadau polisi, ymgynghoriadau ar bolisïau newydd ac ymchwil, fel y gallwn ystyried eu heffaith ar y defnydd o’r iaith Gymraeg. Fel Corff y Goron, nid oes rhaid inni weithredu Safonau, ond gan edrych at y dyfodol, teimlwn ei fod yn ddoeth i ddechrau meddwl am Safonau ac mae ffurfio polisi yn naturiol yn faes allweddol sydd, yn ein barn ni, yn briodol ar gyfer darparu dull mwy cadarn.

3. Mae Adran 5 - Ein Darpariaeth Iaith Gymraeg - yn egluro rôl cyfieithwyr ar y pryd yn y llys a'r ffaith na ddylai fod disgwyliad iddynt ‘ddehongli’ ystyr deddfwriaeth Saesneg/Cymraeg os yw natur yr achos yn seiliedig ar nawsau ieithyddol yn y ddwy iaith.

    - Mae’r adran hon hefyd yn cyfeirio’n benodol at wrandawiadau cyfryngu yn y Gymraeg, ac mae’n egluro’r sefyllfa o ran cyflwyno ewyllysiau Cymraeg mewn achosion profiant.

4. Mae Adran 6 - Ein Darpariaethau ar gyfer yr Ynadaeth - wedi’i chryfhau a bellach mae’n cyfeirio’n benodol at ddarparu lefel gymesur o ddeunydd hyfforddi trwy gyfrwng y Gymraeg.

5. Yn Adran 8 - Ein darpariaeth ar gyfer Staff - rydym wedi cyflwyno meini prawf y mae’n rhaid i unrhyw aelod o staff sy’n dymuno dysgu Cymraeg yn wirfoddol eu bodloni.

6. Yn Adran 10 - Staffio - rydym yn ymrwymo i gynnal archwiliad blynyddol o sgiliau Cymraeg ein staff yng Nghymru.

7. Mae Adran 11 - Trefniadau Gweinyddol - yn alinio ein gweithgaredd caffael i’r gweithgaredd o fewn Cynllun y Weinyddiaeth Gyfiawnder, oherwydd Cyfarwyddiaeth Contractau a Rheolaeth Fasnachol MoJ sy’n gwneud mwyafrif y caffael ar gyfer GLITEM.

Holiadur

Byddem yn croesawu ymatebion i'r cwestiynau canlynol a ofynnir yn y papur ymgynghori hwn.

1. Ydych chi'n meddwl bod y Cynllun yn esbonio'n ddigon clir pa wasanaethau fydd GLITEM yn eu darparu yn Gymraeg i'r cyhoedd, staff ac ynadon?

2. Pa welliannau, os o gwbl, y byddech chi yn eu gwneud i'r Cynllun?
A oes unrhyw beth y dylem eu cynnwys i wneud y cynllun yn well i ddelio â newidiadau posibl i waith y llysoedd a'r tribiwnlysoedd yn y dyfodol?

Diolch ichi am gymryd rhan yn yr ymarfer ymgynghori hwn.

Amdanoch chi

Defnyddiwch yr adran hon i ddweud wrthym amdanoch eich hun.

Enw llawn	
Teitl eich swydd neu ym mha gapasiti yr ydych yn ymateb i'r ymgynghoriad hwn (e.e. fel aelod o'r cyhoedd, ayb.)	
Dyddiad	
Enw'r cwmni/sefydliad (os yw'n berthnasol):	
Cyfeiriad	
Cod post	
Os hoffech inni gydnabod ein bod wedi cael eich ymateb, ticiwch y blwch hwn.	☐ (ticiwch y blwch)
Y cyfeiriad y dylid anfon y gydnabyddiaeth iddo, os yw'n wahanol i'r uchod	

Os ydych yn cynrychioli grŵp, rhowch enw'r grŵp a rhowch grynodeb o'r unigolion neu sefydliadau yr ydych yn eu cynrychioli.

Manylion cyswllt/Sut i ymateb

Dylech anfon eich ymateb erbyn yr 8fed o Ebrill 2022 at:

Hywel Hughes

Pennaeth Gwasanaethau Cymraeg

Uned yr Iaith Gymraeg

Canolfan Cyfiawnder Troseddol Caernarfon

Ffordd Llanberis

Caernarfon

Gwynedd

LL55 2DF

Ffôn: 01286 669704

E-bost: Hywel.Hughes@hmcts.gsi.gov.uk

Cwynion neu sylwadau

Os oes gennych unrhyw gwynion neu sylwadau ynghylch y broses ymgynghori, dylech gysylltu â'r Weinyddiaeth Gyfiawnder yn y cyfeiriad uchod.

Copïau ychwanegol

Mae copïau papur ychwanegol o'r ymgynghoriad hwn ar gael o'r cyfeiriad hwn ac mae hefyd ar gael ar-lein ar Gov.Uk.

Gellir gwneud cais am fformatau gwahanol o'r cyhoeddiad hwn trwy gysylltu gyda: Welsh.Language.Unit.Manager@Justice.gov.uk

Cyhoeddi ymateb

Bydd papur yn crynhoi'r ymatebion i'r ymgynghoriad hwn yn cael ei gyhoeddi ymhen amser ar Gov.UK

Grwpiau cynrychiadol

Gofynnir i grwpiau cynrychiadol roi crynodeb o'r unigolion a'r sefydliadau maent yn eu cynrychioli pan fyddant yn ymateb.

Cyfrinachedd

Mae'n bosibl y bydd gwybodaeth a ddarperir mewn ymateb i'r ymgynghoriad hwn, gan gynnwys gwybodaeth bersonol, yn cael ei chyhoeddi neu ei dadlennu'n unol â deddfwriaethau mynediad at wybodaeth (yn bennaf, y rhain yw Deddf Rhyddid Gwybodaeth 2000, Deddf Diogelu Data 1998 a Rheoliadau Gwybodaeth Amgylcheddol 2004).

Os ydych eisiau i ni drin yr wybodaeth a roddwch yn gyfrinachol, cofiwch, o dan y Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth, fod yna God Ymarfer statudol y mae'n rhaid i awdurdodau cyhoeddus gydymffurfio ag ef ac sy'n ymwneud, ymhlith pethau eraill, ag ymrwymiadau

cyfrinachedd. O gofio hyn, byddai'n ddefnyddiol pe gallech egluro inni pam eich bod yn ystyried yr wybodaeth a roesoch inni fel gwybodaeth gyfrinachol. Os byddwn yn cael cais i ddadlennu'r wybodaeth byddwn yn ystyried eich eglurhad yn llawn, ond ni allwn roi sicrwydd y gellir cadw cyfrinachedd o dan bob amgylchiad. Ni ystyrir y bydd ymwrthodiad cyfrinachedd awtomatig a gynhyrchir gan eich system TG, ynddo'i hun, yn ymrwymo'r Weinyddiaeth.

Bydd y Weinyddiaeth yn prosesu eich data personol yn unol â'r Ddeddf Diogelu Data, ac yn y rhan fwyaf o achosion, bydd hyn yn golygu na fydd eich data personol yn cael ei ddatgelu i drydydd partïon.

Egwyddorion ymgynghori

Mae'r egwyddorion y dylai adrannau'r Llywodraeth a chyrff cyhoeddus eraill eu mabwysiadu ar gyfer ymgysylltu â rhanddeiliaid wrth ddatblygu polisi a deddfwriaeth yn cael eu nodi yn yr egwyddorion ymgynghori.

https://www.gov.uk/government/publications/consultation-principles-guidance

©Hawlfraint y Goron 2022

Mae'r cyhoeddiad hwn wedi'i drwyddedu dan delerau fersiwn 3.0 Trwydded Agored y Llywodraeth oni nodir yn wahanol. I weld y drwydded hon, ewch i nationalarchives.gov.uk/doc/open-government-licence/version/3 neu ysgrifennwch at Information Policy Team, The National Archives, Kew, Llundain TW9 4DU, neu anfonwch e-bost i: psi@nationalarchives.gsi.gov.uk.

Lle'r ydym wedi nodi bod gwybodaeth o dan hawlfraint trydydd parti, bydd angen ichi gael caniatâd gan y deiliaid hawlfraint cysylltiedig.

Gellir cael fersiynau o'r adroddiad hwn mewn fformat arall trwy gysylltu â Welsh.Language.Unit.Manager@justice.gov.uk